CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain MAI 2019

YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:
Cyng R R Roberts, J E Lewis, D T Roberts, E W Roberts, R M Roberts, E D Owen ar Clerc D Owen.

Mrs Annwe Morgan (Cyngor Sir Ynys Mon yn Cyflwyno i Medrwn Mon) Mrs Sheree Ellingworth (Medrwn Mon)

YMDDIHEURIADAU: Cyng H G Owen, E Williams, W R Parry, J Evans.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng J E Lewis. Rhif 6.

CAEL COFNODION 16eg EBRILL 2019 YN GYWIR. Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng E W Roberts.

Cyfarfod gyda Medrwn Mon. Place Shaping. (Siapo Lle)
Cafwyd adroddiad gan Mrs Annwen Morgan yn egluro y targedu. Pobl Ifanc a Mudiadau. Gyda Mrs Sheree Ellingworth yn casglu gwybodaeth a gwneud ymchwiliad ariannu i symud ymalen. Gobeithir cael cyfarfod pellach efallai Mis Medi.

SWYDDOGION 2019 / 20.
CADEIRYDD. Cyng R R Roberts. (Ward Heneglwys) Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E D Owen.
Is-GADEIRYDD. Cyng R M Roberts. (Ward Llandrygarn) Cynnig Cyng E D Owen, eilio Cyng D T Roberts.
CYNRYCHIOLYDD / WYR. Cadeirydd ac Is-Gadeirydd. Unfrydol.
Cyng E D Owen yn barod i gynrychioli ar Bwyllgor Ardal Ynys Mon. Un Llais Cymru. Derbyn.

Diolchwyd i Cyng H G Owen am ei waith fel Cadeirydd am y flwyddyn aeth heibio. Anfon gair iddo i ddiolch a dymuno gwellhad buan hefyd i`w wraig Mrs Morfydd Owen sydd ddim mewn iechyd da.
Cynnig E W Roberts, eilio Cyng D T Roberts. (Unfrydol)

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cael Coed bychain yn y Fynwent Gymunedol, Bodffordd. Cyng E W Roberts yn gweithredu.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. Dim.

PENDERFYNIADAU:
2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
3. Uwch Swyddog Cynllunio (Gorfodaeth)
   Cais Treflys, Tynlon. Y Cyngor ddim yn hapus a Cynlluniau Ategol ond does dim ellir ei wneud amdanynt.

4. Cadeirydd Pwyllgor Safonnau.
   a. Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref / Chymuned.
      Mae y Cyngor yn cytuno a`r cynlluniau ar gyfer hyfforddiant y Clerc a`r Aelodau. Ond y broblem ydyw cael aelodau i fynychu.

b. Adoygiad y Pwyllgor Safonau. - swyddogol. Wedi ei rhoi ar agenda Mai 2019. Wedi ei drafod gan y Cyngor, ai dderbyn copi yw anfon ymlaen cyn diwedd Gorffennaf.

5. *Arwyn William. Pennaeth Dysgu.*
Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni a Seiriol. Diddymu penderfyniadau blaenorol.

6. Rheolwr Gwaith Strydoedd a Gorfodaeth.
Cwyn gan Cyngor Bodffordd (Ty Hen Newydd)
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 tor rheolaeth cynllunio honedig.
Mr Lewis wedi torrir gordyfiant.

7. Uwch Beirianydd Traffig a Pharcio.
Cyffordd Lon Sardis gyda'r B5109 ym Modffordd.
Pryderon ynghylch a chyffordd wedi damwain o ganlyniad i weledd gwael. Cerbydau syn parcio ar ochr y lon yn amharu ar weledd wrth edrych tuag at ganol y pentref. Mae drych wedi ei leoli ond ar adegau mae ei ddefnydd yn cael ei amharu gan yr haul neu gan wlith ar wyneb y gwydr.
Y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r pwysau i barcio gan drigolion. Byddai gosod llinellau melyn dwbl i wahardd parcio yn sicr o wella dioglewch.
Y Cyngor Cymdeithas yn gwrthwynebu llinellau melyn dwbl. Ple maer ceir i fynd nid oes ganddynt unman arall. Nid ydyw yn bosib troi y ffin glaswellt gerllaw yn fan parcio oherwydd fod gwifrenau Trydan a ffon (Car wedi ei falu amser yn ol ar ol mynd yma) Efallai cael drych mawr hir gyferbyn a'r gyffordd. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R M Roberts. (Unfrydol)

GOHEBIAETH (ARALL)

8. *Cercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.*

9. Swyddfa Archwilio Cymru. Diffygion o ran Llywodraethu a Rheoli Ariannol. Mewn dau Gyngor Cymuned. Bodorgan a Llangristiolus a Cherrigceinwen. (mae'r adroddiadau er budd y cyhoedd) Derbyn.

10. Newyddlen Dan Do Mon. Angen copi papur.

11. Menter Mon. Adroddiad Blynyddol 2018. Derbyn dim sylw.

RHODDION

12. Bobath. Canolfan Therapi Plant Cymru. Gadael hyd Mawrth 2020.

PLWYFOL.

13. Y Cyngor yn Cymeradwyo yr Awdit 2018 / 19. Y Clerc a'r Cadeirydd yn arwyddo i'w hanfon ymlaen i'r Awditors. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R M Roberts. (Unfrydol)

14. Methu mynd a Cadair Olwyn ar y palmant o Capel Sardis tuag at Bont Llangwyllog. Angen sylw. (Cyng W R Parry) Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir.

15. Edrych beth yw'r diweddaraf ar Bio Gas yn Stad Diwydiannol, Mona. Cysylltu a'r Asiantaeth Amgylcheddol i weld beth ydyw'r dyfodol. (Cyng E W Roberts)

16. Rhoi Place Shaping ar yr Agenda nesaf. Ynghylch ariannu.

17. Y Giat Fochyn Cae'r Goll yn dal heb ei thrwsio. Ail gysylltu am Mr Arwel Evans. Swyddog llwybrau y Cyngor Sir.

18. *Angen Arwyddion ar Llwybr Cyhoeddus, Glanrafon, Bodffordd. Arwydd ar Bostyn. Cerddwyr yn* cymryd y trywydd anghywir. (Cyng J E Lewis)

MATERION ARIANNOL:

19. Cyfrif Rhedegol £6,731.97.(Preseb 1. £3,483.34)

TALIADAU:

20. Clerc £220.83. Les Cae Chwarae £25.00.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E W Roberts.